



Cyfarfod

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

Dyddiad ac Amser

2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 3YDD TACHWEDD, 2026

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

*** NODER ***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Pwynt Cyswllt

Courtney Leigh Jones

courtneyleighjones@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 26 Hydref 2026)

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes
Arwyn Herald Roberts
Olaf Cai Larsen
Sian Williams
[Sedd Wag]

Edgar Wyn Owen
Ioan Thomas
Beca Roberts
Elin Hywel
[Sedd Wag]

Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Anwen J. Davies
Anne Lloyd-Jones

Eryl Jones-Williams
Dewi Owen

Gwynedd yn Gyntaf (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3. MATERION BRYD

I nodi unrhyw materion brys ym marn y Cadeirydd.

4. COFNODION

5 - 11

The Chairman shall propose that the minutes of the last meeting of this committee held on 16th June 2026, be signed as a true record.

5. ADRODDIAD DRAFFT COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL I GYNGHORWYR AR GYFER 2027/28

12 - 17

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am sylwadau ar y penderfyniadau arfaethig er mwyn llunio ymateb i ymgynghoriad Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, Cymru

6. ETHOLIAD LLYWODRAETH LEOL 2027

18 - 21

I gyflwyno diweddariad ar y gwaith o baratoi at Etholiad 2027.

7. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU ETHOLEDIG

22 - 24

I gyflwyno diweddariad o'r gwaith sydd yn cael ei wneud i gryfhau'r ddarpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau

8. DIOGELWCH CYNGHORWYR

25 - 26

I gyflwyno diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud o ran Diogelwch Aelodau

9. DIWEDDARIAD - GWAITH UWCHRADDIO SYSTEMAU'R SIAMBRAU

27 - 28

I gyflwyno diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud i uwchraddio'r Siambrau.

10. DIWEDDARIAD AR RAGLEN WAITH PRYDERON AC YMHOLIADAU AELODAU

29 - 32

I ddarparu diweddariad ar raglan waith Pryderon ac Ymholiadau Aelodau

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH 16 MEHEFIN 2026

YN BRESENNOL:

Cynghorwyr:

Dewi Owen(Cadeirydd), Annwen Hughes, Eryl Jones-Williams, Anne Lloyd Jones
Ioan Thomas, Edgar Wyn Owen, Llio Elenid Owen, Cai Larsen, Sian Williams,
Stephen Churchman, Anwen Jane Davies

Swyddogion yn bresennol:

Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth), Vera Jones (Rheolwr
Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth),
Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol), Mari Edwards
(Rheolwr Dysgu a Datblygu) Catrin Meirion Owen (Swyddog Datblygu Aelodau), a
Courtney Leigh Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth a Dinesig).

1. ETHOL IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Anne Lloyd Jones fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer
2026/27.

2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Elin Hywel, Arwyn Herald Roberts a
Beca Roberts.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

4. MATERION BRYS

Cyfeiriodd Aelod at y mater sydd wedi codi yn ddiweddar yn y wasg. Cytunwyd nad
y Pwyllgor hwn oedd y man briodol i gynnal y drafodaeth.

5. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd
ar 24 Chwefror, fel rhai cywir.

6. DRAFFT O ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT GAN Y PENNAETH GWASANAETH DEMOCRATIAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol drafft gan y Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth. Atgoffwyd mai adroddiad drafft yw hwn ac y bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn er mwyn cael ei fabwysiadu. Diolchwyd i'r Tîm Democratiaeth am eu gwaith wrth gefnogi aelodau a chynnal Pwyllgorau'r Cyngor. Tynnwyd sylw at y newidiadau staffio sydd wedi digwydd o fewn y tîm, gan groesawu'r nifer swyddogion sydd newydd ymuno a'r tîm a dymuno yn dda i'r unigolion sydd yn ymddeol. Canmolwyd gwaith y Tîm Democratiaeth, Tîm Cyfieithu a'r swyddogion Dysgu a Datblygu, gan nodi gwerthfawrogiad i'r gwaith sydd yn mynd rhagddo yn y cefndir i gynnal a gweinyddu pwyllgorau a chyfarfodydd rhithiol ac aml-leoliad. Nodwyd bod bodlonrwydd Aelodau'r Cyngor gyda gwasanaeth y Tîm Democratiaeth yn parhau i fod yn uchel, a bod nifer o sylwadau cadarnhaol yn cael eu derbyn yn ystod y flwyddyn.

Cyfeiriwyd at flaenoriaethau'r gwasanaeth am y flwyddyn nesaf, gan nodi bod gwaith paratoi at etholiad 2027 eisoes wedi cychwyn, ac y bydd yn dwysau dros y misoedd nesaf. Nodwyd bod gwaith cynllunio ar gyfer yr etholiad yn mynd rhagddi, wrth ddysgu gwersi o'r etholiad diwethaf, derbyn mewnbwn aelodau a chroesawu trefniadau newydd fel rhan o'r cyfnod anwytho.

Diweddarwyd ar y prosiect Uwchraddio Siambrau. Eglurwyd bod y dechnoleg sydd yn cael ei ddefnyddio yn y siambrau bellach wedi dyddio ac angen ei adnewyddu er mwyn sicrhau darpariaeth cyfarfodydd aml-leoliad a chynnal trefniadau democratiaeth y Cyngor, ynghyd â chodi safon y siambrau a gwella profiad Aelodau.. Nodwyd bod gwaith yn cael ei wneud yn y cefndir i greu briff o anghenion y Cyngor i gyfathrebu ac ymgysylltu efo'r farchnad yn fuan er mwyn canfod y cwmni all ddarparu'r gefnogaeth gorau. Eglurwyd bydd hyn yn cynnwys y sgriniau gweledol, systemau pleidleisio, meics a systemau sain.

Rhoddwyd diweddariad ar y gwaith parhaus sydd yn digwydd o ran y Rhaglen hyfforddiant i Aelodau. Cyfeiriwyd at yr wythfed maes craidd sydd wedi ei ychwanegu at y Rhaglen craidd yn ystod y flwyddyn, sef Trais yn erbyn Menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Amlygwyd fod lechyd a diogelwch aelodau yn parhau i fod yn flaenoriaeth gan yr adran a bod y gwaith yn parhau fel mae anghenion yn newid. Sicrhawyd bod bygythiadau i aelodau yn cael eu cymryd o ddifri trwy risgiau diogelwch, a bod cefnogaeth ar gael i aelodau yn gyson, fel rhan o'r cynlluniau iechyd a diogelwch.

Croesawyd unrhyw gwestiynau neu sylwadau gan Aelodau:

- Diolchwyd i'r ddwy swyddog sydd wedi ymddeol yn ddiweddar o'r Tîm Democratiaeth ar ôl blynyddoedd maith a dymunwyd yn dda iddynt ar ran aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth. Croesawyd y swyddogion newydd sydd wedi ymuno a'r tîm a dymunwyd yn dda iddynt. Diolchwyd i'r Gwasanaeth Democratiaeth ac iaith am eu gwaith, gan nodi bod eu gwaith yn

aml yn digwydd yn y cefndir. Nodwyd eu bod yn cyflawni gwaith gwerthfawr i gynorthwyo a chynnal gwaith democratiaeth y Cyngor. Ymestynnwyd y ganmoliaeth i'r holl staff etholiadol hefyd gan nodi bod llawer o waith manwl yn mynd rhagddo i gynnal democratiaeth yng Ngwynedd.

- Canmolwyd yr adroddiad. Nododd Aelod fod angen mwy o eglurder ar adegau wrth gyfeirio at ddata bodlonrwydd Aelodau gyda gwasanaeth y Tîm Democratiaeth. Nodwyd bod yr ystadegau yn gallu bod yn gymhleth i'w deall oherwydd y ffurf sydd wedi ei chyflwyno yn yr adroddiad a chadarnhawyd byddai'r swyddogion yn mynd i'r afael â hynny. Mynegwyd rhai sylwadau o ran cywirdeb ffeithiau ynghylch materion staffio, a mynegwyd sylwadau am ambell i typo sydd i weld yn yr adroddiad. Sicrhawyd bydd hyn yn cael ei gywiro cyn i'r adroddiad gael ei fabwysiadu yn y Cyngor Llawn.
- Canmolwyd y gwasanaeth cyfieithu gan nodi bod eu gwaith yn arbennig wrth gyfieithu ar y pryd yn ystod cyfarfodydd. Nododd Aelod ei fod yn ddiolchgar iawn i'r tîm cyfieithu oherwydd eu bod yn ei gynorthwyo i fynyachu pwyllgorau a chyflawni ei rôl fel Cynghorydd. Mynegwyd rhwystredigaeth gyda'r cyfarpar cyfieithu yn Siambr Dafydd Orwig gan nodi nad yw'r clustffonau yn gyfforddus iawn. Croesawyd y gwaith uwchraddio ar gyfer y siambr sydd wedi amlinellu yn yr adroddiad a chanmolwyd yr ymdrech i wella'r cyfarpar i Aelodau. Mynegwyd rhwystredigaeth bellach gyda'r sain yn Siambr Dafydd Orwig yn ystod cyfarfodydd hybrid, gan nodi bod y trafodaethau yn anodd eu dilyn.
- Holwyd os oes amserlen ar gyfer datblygiadau'r Siambrau. Cadarnhawyd bod llawer o'r gwaith cynllunio gan y tîm prosiect wedi mynd rhagddo i adnabod manyleb o'r anghenion penodol yn y Siambrau. Nodwyd bod aelodau'r Tîm wedi ymgysylltu efo'r farchnad i weld beth sydd yn bosib o ran technoleg newydd, a bydd hyn yn bwydo mewn i'r fanyleb sydd wedi ei rhaglennu ar gyfer cyhoeddi ddiwedd yr haf gobeithio. Amlygwyd bydd angen dilyn trefniadau caffael, ac unwaith bydd darparwr wedi ei adnabod, bydd yr adran yn cydweithio efo'r cyflenwr er mwyn cadarnhau amserlen. Nodwyd bod yr adran yn anelu at sicrhau bod y cyfarpar newydd wedi ei sefydlu ac ar waith ar gyfer mis Mai 2027, fel bod y Cynghorwyr newydd yn cael defnydd o'r cyfarpar a'r systemau newydd.
- Wrth gyfeirio at y data sydd yn nodi faint o bobl sydd yn gwylio'r pwyllgorau a chyfarfodydd trwy'r we ddarllediadau, holwyd os oes dadansoddiad o ba bwyllgorau sydd yn cael eu gwylio mwyaf aml gan y cyhoedd . Mewn ymateb, cadarnhawyd bod Pwyllgorau sydd yn trafod pynciau mwyaf llosg neuo ddiddordeb cyhoeddus yn denu'r nifer uchaf o wylwyr. Ar gyfer y flwyddyn 2025/26 cadarnhawyd mai'r Premiwm Treth Cyngor a'r Gyllideb ddenodd y nifer uchaf o wylwyr. Eglurwyd eu bod yn parhau i addasu, oherwydd y modd i bobl wyllo'r Pwyllgorau nol trwy wefan y Cyngor. Nodwyd bod y nifer o wylwyr i weld yn codi yn flynyddol wrth i ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth a democratiaeth gynyddu.
- Bu trafodaeth ynghylch bygythiadau i Aelodau. Holwyd pa mor gyffredin ydi hyn ac os oes system benodol yn bodoli i ddelio â bygythiadau pe baent yn codi,

Mewn ymateb, cadarnhawyd bod gweithdrefn mewn lle gan yr adran. Esboniwyd fod swyddogion yn blaengynllunio wrth ystyried blaen raglenni cyfarfodydd a phwyllgorau gan asesu'r pynciau fydd yn codi a pha mor gynhennus ydynt. Cadarnhawyd bod asesiad risg yna yn cael ei gwblhau a bydd mesurau yn cael eu rhoi mewn lle er mwyn lleihau risgiau lle sy'n bosib. Eglurwyd bod Aelodau yn cael eu hannog i gysylltu efo swyddogion os ydynt yn pryderu am unrhyw beth a bod ffurflen ar gael i'w chwblhau er mwyn cofnodi unrhyw ddigwyddiadau. Nodwyd bod y materionyn cael eu cyfeirio at yr heddlu os oes angen. Mynegwyd bod hyfforddiant penodol ar gyfer iechyd a diogelwch Aelodau. Cadarnhawyd bod sylw parhaus ar y mater, gan gyfeirio at y digwyddiad cofio'r gwleidydd Jo Cox sydd yn digwydd wythnos nesaf.

PENDERFYNIAID

Derbyn yr adroddiad gan gytuno i wneud man addasiadau cyn ei argymhell i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei fabwysiadu.

7. ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL MAI 2027

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arweinydd y Tîm Democratiaeth. Amlinellwyd y rhaglen waith ar gyfer Etholiad Llywodraeth Leol Mai 2027, gan nodi fod cryn dipyn o waith paratoi i wneud dros y misoedd nesaf. Eglurwyd bod 3 prif thema wedi eu hadnabod fel rhan o'r gwaith paratoadol, sef; paratoi cyn yr Etholiad, diwrnod yr Etholiad a chanlyniadau, a chyfnod anwytho a'r rhaglen hyfforddiant. Nodwyd bod rhaglen waith ar gael i bob thema gyda'r manylder yn yr adroddiad.

Eglurwyd bod grŵp trafod wedi ei sefydlu er mwyn cael mewnbwn Aelodau, sydd yn cynnwys nifer o gynrychiolwyr o'r grwpiau gwleidyddol. Nodwyd bod y grŵp wedi cyfarfod ddwywaith hyd yma a bod trafodaethau eisoes wedi dechrau mynd rhagddo, gyda chyfarfod nesaf wedi ei rhaglennu ymhen pythefnos. Cyfeiriwyd at rhai o'r materion a gafodd sylw yn y cyfarfodydd, gan gynnwys y Fewnwyd Aelodau a'r Bwletin Aelodau. Rhagwelwyd byddai'r cyfarfodydd nesaf yn cynnwys trafodaethau ar hyfforddiant a darpariaeth technoleg gwybodaeth i aelodau. Croesawyd aelodau'r pwyllgor i ymuno a'r grwpiau trafod i drafod y rhaglen waith a chynnig sylwadau.

Awgrymwyd bod modd i aelodau'r grŵp trafod raeadru gwybodaeth i holl aelodau'r Cyngor trwy'r cyfarfodydd grŵp gwleidyddol. Cyflwynodd Aelod awgrym y byddai modd i'r aelodau gynnig sylwadau a mewnbwn i'r rhaglen waith trwy'r grwpiau trafod gan ofyn i'r cynrychiolwyr basio'r sylwadau ymlaen yn y cyfarfodydd. Mewn ymateb, cytunwyd byddai hynny'n syniad da i gael mewnbwn ehangach gan Aelodau.

Pwysleisiwyd y dylai ymgeiswyr i'r dyfodol fod yn holl ymwybodol o'r cyfrifoldebau gofynnol sydd yn rhan allweddol o'r rôl o fod yn Gynghorydd. Mynegwyd bod angen atgyfnerthu pwysigrwydd cymryd y rôl o ddifri, gan sicrhau bod holl hyfforddiant mandadol yn cael ei gwblhau, presenoldeb cyson mewn cyfarfodydd a phwyllgorau, a gwaith ward gweithgar. Pwysleisiwyd bod angen sicrhau fod yr ymgeiswyr yn barod i ymrwymo yn llawn i weithio er budd eu trigolion yn eu ward a rhoi amser gwerth 3

diwrnod yr wythnos o waith er mwyn ennill eu cyflog yn deg. Cydnabuwyd bod rhai aelodau ag ymrwymïadau eraill yn ogystal â bod yn Gynghorwyr, megis gweithio rhan amser a magu teulu, ond pwysleisiwyd yr angen i ymrwymo i'r rôl a'i gymryd o ddifri.

Mynegwyd sioc nad oes lawer o drigolion yn deall cyfrifoldebau a disgwyliadau'r rôl, a'r gwaith sydd angen ei gwblhau. Nodwyd ei bod yn bwysig i Aelodau ymuno â nifer gwahanol o bwyllgorau yn y Cyngor er mwyn deall sut mae'r Cyngor yn gweithio dros bobl Gwynedd. Mewn ymateb i hyn, amlygwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i amlygu rôl a disgwyliadau Cynghorwyr fel rhan o'r prosiect amrywiaeth mewn democratiaeth. Nodwyd bydd hyn yn cael ei rannu ar y wefan a chyfryngau cymdeithasol fel bod mwy o wybodaeth ar gael ynghylch y gwaith i ddarpar Aelodau.

Bu sgwrs ynglŷn ag ail strwythuro Mewnwyd Aelodau a chadarnhawyd bod datblygiadau ar y gweill i sicrhau fod y Fewnwyd yn fwy hygyrch i Aelodau fel bod modd iddynt ddefnyddio'r adnodd yn fwy effeithiol.

Diolchwyd i holl staff gwasanaeth democratiaeth am fod yn gefnogol iawn i Aelodau. Nododd Aelod ei fod yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth yn fawr, ac na fyddai'n gallu cyflawni ei waith fel cynghorydd heb gymorth y staff oherwydd ei anabledd. Nodwyd ei fod yn bwysig i ddarpar ymgeiswyr sylweddoli bod cymorth cyflawn ar gael iddynt a dylid bod yn agored i ymgeisio i fod yn Gynghorydd Sir.

Mynegodd Aelod rwystredigaeth ynghylch ei chyfyngiadau teithio a phroblemau ymuno a chyfarfodydd o bell. Cwynodd bod trefnu ystafell mewn swyddfa Cyngor lleol yn creu trafferth iddi ac nad oes system ddigonol mewn lle er mwyn cynorthwyo trefniadau. Diolchwyd yn arbennig i staff Galw Gwynedd ym Mhwlheli am eu cymorth bob tro wrth ateb galwadau yn brydlon, a chynorthwyo trefniadau.

Diolchwyd i'r holl Aelodau am eu sylwadau a gwerthfawrogwyd y mewnbwn i'r rhaglen waith wrth wella darpariaeth y gwasanaethau a llunio trefniadau ar gyfer Etholiad 2027.

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad.

8. DATGANIAD CYNGOR GWYNEDD YNGHYLCH HYBU AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arweinydd y Tîm Democratiaeth. Cadarnhawyd bod y Cyngor wedi mabwysiadu Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth yng Nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Hydref 2021 yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a ddaeth i rym yr un flwyddyn. Adroddwyd fod y Cyngor yn datgan ei ymrwymiad yn sgîl yr Etholiad Llywodraeth leol ar y gweill ym mis Mai 2027. Eglurwyd nad oes lawer o newidiadau i'r datganiad ers 2021, ond gofynnwyd am gefnogaeth Aelodau'r Pwyllgor i gyflwyno'r datganiad yn y Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf.

Diolchwyd am yr adroddiad a phwysleisiwyd pwysigrwydd amrywiaeth mewn democratiaeth er mwyn sicrhau gwell cynrychiolaeth o drigolion y sir. Atgyfnerthwyd bod angen ceisio denu amrywiaeth eang o ddarpar ymgeiswyr a sicrhau bod y rôl yn ddigon hygyrch a hyblyg i bobl gyflawni'r rôl trwy drefniadau ymarferol. Nodwyd bydd angen ystyried yr heriau a'r rhwystrau i bobl a cheisio eu goresgyn. Croesawyd y rhaglen waith ddrafft.

PENDERFYNIAID

Derbyn yr adroddiad.

Cytunwyd i argymhell i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r Datganiad Amrywiaeth Mewn Democratiaeth (ar ei newydd wedd) ynghyd a'r rhaglen waith i gefnogi gweithredu ar y datganiad.

9. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad. Rhoddwyd trosolwg o'r nifer o Aelodau sydd wedi cwblhau'r teitlau hyfforddiant craidd. Nodwyd bod y niferoedd sydd heb gwblhau'r teitlau yn parhau i fod yn uchel. Sicrhawyd bod yr adran Dysgu a Datblygu yn parhau i annog Aelodau i gwblhau'r hyfforddiant, trwy yrru nodiadau atgoffa, cynnig cefnogaeth a darparu adnoddau hygyrch i Aelodau gwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus iddynt. Nodwyd bod swyddogion yn cysylltu ag Aelodau yn unigol er mwyn ceisio eu hannog ac ysgogi Aelodau i fynychu'r hyfforddiant a chwblhau'r teitlau. Nodwyd bod yr hyfforddiant ar gael ar y Fewnwyd i aelodau ac anogwyd i Aelodau gysylltu efo swyddogion am gymorth.

Cyfeiriwyd at y gwaith sydd yn mynd rhagddo i ymgorffori'r hyfforddiant LHDTCPRA+ fel rhan o'r hyfforddiant Cydraddoldeb a sicrhawyd bydd y gwaith o adnabod y camau i wneud hyn yn cael eu cymryd cyn Mai 2027.

Adroddwyd bod y broses o adnabod mentoriaid ar gyfer Aelodau newydd fydd yn cychwyn ym Mai 2027 wedi cychwyn. Eglurwyd byddai'r mentoriaid yn Aelodau Etholedig profiadol ac yn gallu gweithredu fel pwynt cyswllt i Aelodau Etholedig newydd sydd yn setlo yn eu rôl newydd. Nodwyd bod modd i Aelodau derbyn sesiynau Cymhelliant neu Fentora, fel rhan o'r gwaith mwy arbenigol a hunan datblygiadol, a chroesawyd i Aelodau gysylltu â'r Adran Dysgu a Datblygu i drefnu.

Estynnwyd gwahoddiad i Aelodau drefnu sgwrs Datblygiad Personol gyda'r Rheolwr Dysgu a Datblygu neu Swyddog arall priodol. Cynigwyd sesiynau i Aelodau adlewyrchu ar eu rôl, ystyried meysydd datblygiad a llunio rhaglen datblygu personol i gwrdd â'u hanghenion a'u dymuniadau. Nodwyd bod Strategaeth Hyfforddi Aelodau yn y broses o gael ei greu a bydd yn cael ei gyflwyno yn fuan. Sicrhawyd bydd hwn yn rhan o'r llawlyfr Dysgu a Datblygu i aelodau newydd ym mis Mai 2027.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau a mynegi sylwadau.

Mynegwyd rhwystredigaeth unwaith eto ynghylch cyn lleied o Aelodau sydd yn mynychu hyfforddiant, yn enwedig yr hyfforddiant mandadol er gwaethaf ymdrechion

niferus swyddogion i'w hannog. Sylwyd bod nifer o Gynghorwyr heb gwblhau'r hyfforddiant mandadol ar y Cod Ymddygiad, a Diogelu Plant ac Oedolion, sydd yn greiddiol i rôl Aelodau fel rhiant corfforaethol. Mynegwyd rhwystredigaeth bellach bod 3 Aelod heb gwblhau dim o'r teitlau hyfforddiant mandadol o gwbl. Ystyriwyd o oedd modd y gellir adnabod yr Aelodau a chyhoeddi'r enwau yn gyhoeddus. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod y wybodaeth yma bellach ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Cyngor.

Amlygwyd bod rhai Aelodau yn cael trafferth cael mynediad i'w rhaglen dysgu ac yn cael trafferth cadarnhau pa gyrsiau hyfforddiant maent wedi eu cwblhau. Sicrhawyd bydd yr gwasanaeth Dysgu a Datblygu yn gyrru e-bost at yr Aelodau yn unigol yn cynnwys y linc i'r hyfforddiant perthnasol sydd heb ei gwblhau eto. Canmolwyd y cyrsiau hyfforddiant a ddarparwyd gan y gwasanaeth Dysgu a Datblygu a diolchwyd am eu cefnogaeth.

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00yb a daeth i ben am 11:20yb.

Dyddiad y cyfarfod :	3 Tachwedd 2026
Pwnc	Adroddiad (drafft) Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol i Gynghorwyr ar gyfer 2027/28
Argymhelliad	Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am sylwadau ar y penderfyniadau arfaethedig er mwyn llunio ymateb i ymgynghoriad Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, Cymru.
Swyddog Cyswllt:	Vera Jones, Rheolwr Democratiaeth ac Iaith
Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?	
1. Dyma ail adroddiad Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, Cymru (y Comisiwn). Dyma'r corff sy'n gyfrifol am osod lefel cydnabyddiaeth Ariannol i holl Gynghorwyr Cymru. 2. Bydd y newidiadau drafft, petaent yn dod i rym, yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd Chwefror 2027 ac yn weithredol ar gyfer blwyddyn Ariannol 2027-28, sef o Ebrill 1af 2027. Mae'r ymgynghoriad yn cau ar y 17eg o Ragfyr, 2026 felly bydd angen ymateb cyn hynny. Rôl y Comiswn Democratiaeth a Ffiniau, Cymru 3. Fel a nodwyd uchod, dyma ail adroddiad y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, Cymru, gyda'r draft wedi ei gynhyrchu wrth ystyried fod etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai, 2027. Mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad nad oes angen gwneud unrhyw newidiadau mawr i'r fframwaith cyn yr Etholiad. Mae hyn yn golygu fod yr adroddiad yn cynnwys symiau uwchraddio, lle bo'n briodol, ond yn gadael y fframwaith heb newid. Prif Benderfyniadau sy'n berthnasol i'r Cyngor 4. Mae copi llawn o'r adroddiad ar ei ffurf drafft i'w gael ar y ddolen isod. Draft-annual-remuneration-report-2027-28-C.pdf Mae'r Comisiwn hefyd wedi cynhyrchu adroddiad atodol ar gyfer cydnabyddiaeth Ariannol y Gwasanaeth Tân ac Achub, gweler yr adroddiad terfynol llawn ar y ddolen isod. 20260925-supplementary-remuneration-report-FRA-C.pdf	



Tâl ar gyfer Aelodau etholedig.

5. Mae'r cyflog sylfaenol, sy'n cael ei dalu i bob aelod etholedig, yn dâl am y cyfrifoldeb o gynrychioli'r gymuned a chymryd rhan yn y gwaith craffu, rheoleiddio a swyddogaethau cysylltiedig llywodraethu lleol. Mae wedi bod yn seiliedig ar swm sydd gyfwerth â thri diwrnod llawn yr wythnos o waith.
6. Fel sy'n cael ei nodi yn yr adroddiad, defnyddiwyd arolwg blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) fel sail i gydnabyddiaeth Aelodau Etholedig yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi nodi fod y wybodaeth o'r arolwg yn hen (tua dwy flwydd oed) erbyn i'r penderfyniadau ddod i rym – ee, Gwybodaeth Ariannol am Ebrill 2024 oedd sail penderfyniadau ar gydnabyddiaeth Ariannol i Gynghorwyr yn 2026/27.
7. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu fod dewis mesur sy'n ymwneud â chostau byw yn briodol, ac wedi defnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau perchen-feddianwyr (CPIH) fel sail i'r lefelau cydnabyddiaeth ariannol o fewn ei gylch gwaith. Y ffigwr diweddaraf ar gael wrth lunio'r adroddiad yw ffigwr Mai 2026, sef cynnydd o 3%.
8. Mae'r Comisiwn yn gofyn am farn awdurdodau ynghylch defnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr fel sail i'r cynnydd blynyddol fel rhan o'r ymgynghoriad. [*Gofynnir am farn y pwyllgor os ydych yn cydweld gyda'r newid yma i sail y penderfyniad?*](#)
9. Y cyflog sylfaenol fydd **£21,676, ar gyfer 27/28**, sy'n gynydd o 3%. Roedd y cyflog sylfaenol yn £21,044 yn 2026/27 ac yn £19,771 yn 2025/26.

Uwch Gyflogau ar gyfer Aelodau etholedig.

10. Nid oes newid yn y terfyn (cap) ar y nifer o uwch gyflogau ar gyfer Cyngor Gwynedd, gyda'r ffigwr yn parhau i fod yn 18.
11. Mae'r tabl isod yn dangos manylion taliadau ar gyfer uwch rolau, ac mae pob uwch gyflog yn cynnwys y taliad cyflog sylfaenol. Noder fod y cynnydd i'r elfen 'uwch' o'r cyflogau yn 3% i bob rôl. Dangosir y ffigurau perthnasol i Gyngor Gwynedd (grwp B) ar gyfer 2027-28.



	Cydnabyddiaeth ariannol		
Rôl	Tebygol 27/28	2026/27	2025/26
Cyflog sylfaenol (yn daladwy i bob aelod etholedig)	£21,676	£21,044	£19,771
Band 1: arweinydd	£73,156	£71,025	£66,727
Band 1: dirprwy arweinydd	£51,209	£49,717	£46,709
Band 2: aelodau gweithredol	£43,893	£42,615	£40,036
Band 3: cadeiryddion pwyllgorau (os ydynt yn cael tâl cydnabyddiaeth)	£32,514	£31,567	£29,657
Band 4: arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf	£32,514	£31,567	£29,657
Band 5: arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill	£26,011	£25,253	£23,726
Pennaeth Dinesig (Cadeirydd y Cyngor)	£32,514	£31,567	£29,657
Dirprwy Bennaeth Dinesig (Is-gadeirydd y Cyngor)	£26,011	£25,253	£23,726

12. Mae Penaeth dinesig yn uwch-swydd mewn cynghorau ac mae'r rôl yn wahanol i arweinyddiaeth wleidyddol neu weithredol. Yn ogystal â chadeirio cyfarfodydd pwysig, y pennaeth dinesig yw 'dinesydd cyntaf' a 'llysgennad' yr awdurdod, gan gynrychioli'r Cyngor wrth ymwneud â phob math o sefydliadau a chyrrff.

13. Noder nad oes manylion ynghylch a yw rôl y Pennaeth Dinesig a'r Dirprwy Bennaeth Dinesig (os y'i telir), wedi eu cynnwys o fewn y terfyn neu beidio. (Roedd yn glir yn y gorffennol nad oedd o fewn y terfyn). *Argymhellir fod Aelodau'r pwyllgor yn gofyn am gadarnhad o'r sefyllfa am yr uwch gyflogau i'r Pennaeth Dinesig a'r Dirprwy Bennaeth Dinesig fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad.*

Cyflogau/uwch-gyflogau wrth wasanaethu ar gyrff eraill

Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC)

14. Mae pob un o'r pedwar cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) yn cynnwys arweinwyr y prif gynghorau yn ei ardal a chadeirydd unrhyw awdurdod Parc Cenedlaethol sy'n gorwedd yn gyfangwbl neu'n rhannol o fewn ei ffiniau. Mae'r arweinwyr hyn yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol am eu rol o fewn eu cyrff priodol. Mae'r Comisiwn wedi ymgynghori ynghylch a oes angen unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ychwanegol i adlewyrchu'r ymrwymiad amser a'r cyfrifoldebau ychwanegol neu beidio. Penderfyniad y Comisiwn ar hyn o bryd yw cynnal mwy o waith ymchwil cyn gwneud penderfyniad terfynol. Disgwylir i'r penderfyniad terfynol gael ei gynnwys yn adroddiad 2028/29.

Awdurdod Parc Cenedlaethol

15. Mae Awdurdodau Parc Cenedlaethol yn cynnwys aelodau sydd naill ai'n aelodau etholedig a enwebwyd gan y prif gynghorau o fewn ardal y parc cenedlaethol neu'n aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru trwy'r broses penodiadau cyhoeddus. Mae aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru ac aelodau a enwebwyd gan y cyngor yn cael eu trin yn gyfartal mewn perthynas â chydabyddiaeth ariannol.
16. Ni chaniateir i Aelodau etholedig a enwebwyd gan eu Cyngor sy'n derbyn Cyflog Band 1 (Arweinydd ac is-arweinydd) neu Fand 2 (aelodau cabinet) dderbyn unrhyw gyflog ychwanegol ar gyfer rôl mewn Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae'r gydnabyddiaeth ar gyfer y rolau o fewn Awdurdod Parc Cenedlaethol hefyd yn gweld cynnydd o 3% ar gyfer 2027/28, sef

Cyflog Sylfaenol	£6,114
Cadeirydd	£16,952
Diprwy Gadeirydd	£10,449 (os y penodir un)
Cadeirydd pwyllgor	£10,449

Awdurdod Tân ac Achub

17. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol gan y Comisiwn ar gydnabyddiaeth Ariannol Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru wrth i'r cyrff hynny symud i drefniadau llywodraethu Newydd. Cyhoeddwyd yr adroddiad yn mis Medi 2026, mae dolen wedi ei gynnwys uchod. Cyflwynwyd y newidiadau gan Lywodraeth Cymru, gan sefydlu byrddau llai o faint, tebyg i weithrediaeth, sy'n cynnwys un cynghorydd gweithredol o bob awdurdod lleol cyfansoddol ynghyd â lleiafrif o aelodau annibynnol a benodir trwy gystadleuaeth gyhoeddus. Bydd y model Newydd yn dod i rym ar ol etholiadau llywodraeth leol mis Mai 2027.

Aelodau Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu

18. Bydd cyflog cadeirydd cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu yn cael ei osod ar £10,838, sy'n gynnydd o'r £10,522 llynedd, a chyflog is-gadeirydd yn cael ei osod ar hanner hynny, sef £5,419, o gymharu â £5,261 llynedd. Mae'r penderfyniad yma yn bodoli ers rhai blynyddoedd ac yn cyfeirio at gyd-bwyllgorau Craffu o awdurdodau lleol, nid cyd-bwyllgor Craffu ar gyfer Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd.

Aelodau cyfetholedig ac aelodau lleyg

19. Eleni am y tro cyntaf ers blynyddoedd mae argymhelliad I gynyddu ffioedd ar gyfer Aelodau lleyg ac Aelodau cyfetholedig sy'n gwasanaethu ar wahanol bwyllgorau. *Gan fod aelodau'r pwyllgor wedi tynnu sylw at yr anhegwch hwn yn flaenorol, argymhellir fod aelodau'r pwyllgor yn croesawu'r cynnydd o 3% yn unol a'r cynnydd I Aelodau Etholedig er mwyn cydnabod y gwaith a wneir gan yr unigolion hyn.*
20. Mae'r pwyslais yn yr adroddiad yn parhau i fod ar i 'swyddog priodol' o fewn yr awdurdod bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i raglennu ar gyfer diwrnod llawn neu hanner diwrnod, ac i benderfynu pryd y bydd yn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod neu ddefnyddio cyfradd fesul awr lle mae'n synhwyrol cyfuno nifer o gyfarfodydd. *O ystyried fod y gyfradd fesul awr wedi ei gyflwyno yn wreiddiol er mwyn adlewyrchu'r ffordd newydd o weithio (ee Cyfarfodydd briffio am dri chwarter awr), argymhellir fod Aelodau'r Pwyllgor yn gofyn i'r Comisiwn unwaith eto eleni i bwysleisio'r angen i ddefnyddio'r gyfradd fesul awr i ddangos fod Cyngorau sir yn ddarbodus yn Ariannol ac yn talu'n deg am waith sy'n cael ei gyflawni.*
21. Noder y ffioedd isod ar gyfer Aelodau cyfetholedig a lleyg sydd â hawliau pleidleisio.

Rôl	Taliad cyfradd fesul awr	Cyfradd talu hyd at 4 awr	Cyfradd talu 4 awr a throsodd
Cadeiryddion pwyllgorau safonau, a phwyllgorau Archwilio	£34.50 £33.50 (26/7)	£138 £134 (26/27)	£276 £268 (26/7)
Cadeiryddion lleyg CBC – categori Newydd er mwyn amlygu'r taliad I'r CBC	£34.50	£138	£276
Aelodau cyffredin o bwyllgorau Safonau sydd hefyd yn cadeirio fPwyllgorau Safonau ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref	£30.50 £29.75 (26/7)	£122.50 £119 (26/27)	£245 £238 (26/7)
Aelodau lleyg cyffredin CBC – categori Newydd er mwyn amlygu'r taliad I'r CBC	£30.50	£122.50	£245
Aelodau cyffredin o Bwyllgorau Safonau, pwyllgor Craffu Addysg, Pwyllgor Craffu	£27 £26.25 (26/7)	£108 £105 (26/7)	£216 £210 (26/7)



trosedd ac Anrhefn a Phwyllgor Archwilio			
Cynghorwyr Cymuned a Thref sy'n Aelodau o Bwyllgorau Safonau Prif Gynghorau	£27 £26.25 (26/7)	£108 £105 (26/7)	£216 £210 (26/7)

Taliadau i Aelodau cynghorau cymuned a thref

22. Noder fod yr adroddiad yn nodi'r telerau ar gyfer Aelodau Cynghorau Cymuned a Thref am 'iawndal am golled ariannol' - gan godi'r cyfraddau yn unol a'r cynnydd o 3%. Gan nad yw'r elfen yma yn ymwneud a'r Cyngor, argymhellir fod aelodau'n trafod materion perthnasol yn eu Cynghorau Tref/ Cymuned unigol.

Costau eraill

23. Mae'r adroddiad yn nodi yn para 99 fod "Rhaid i ad-daliadau fod ar gyfraddau cyfredol cyllid a Thollau Ei Fawrhydi", mewn perthynas a chostau teithio.
24. Ers dechrau 2026/27 mae'r cyfraddau wedi cynyddu i Aelodau a staff, gyda'r cyfraddau cyfredol fel a ganlyn:
- 55c y filltir am y 10,000 milltir busnes cyntaf
 - 25c y filltir am bob milltir dros 10,000 milltir.

Argymhelliad

25. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am
- sylwadau ar y penderfyniadau arfaethedig er mwyn llunio ymateb i ymgynghoriad Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, Cymru.

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth
DYDDIAD	3 Tachwedd 2026
TEITL	ETHOLIAD LLYWODRAETH LEOL MAI 2027
PWRPAS	Cyflwyno diweddariad ar y gwaith o baratoi at Etholiad 2027
ARGYMHELLIAD	Nodi a derbyn yr adroddiad.
AWDUR	Annes Siôn Arweinydd Tîm Democratiaeth

RHAGAIR

- Rydym oll yn ymwybodol fod etholiadau Llywodraeth Leol yn cael eu cynnal ym mis Mai 2027. Yn sgil hyn mae cryn waith paratoi – gennych chi fel aelodau etholedig, gan y grwpiau gwleidyddol, yn ogystal a gennym ni fel swyddogion.
- Mae gwaith eisoes ar y gweill, gyda thair prif thema dan ystyriaeth, fel a ganlyn:
 - Paratoi cyn yr etholiad (gan gynnwys hybu amrywiaeth mewn democratiaeth)
 - Canlyniadau / diwrnod etholiad
 - Anwytho a'r rhaglen hyfforddiant
- Paratoi.
Yn naturiol, mae nifer o is rannau fesul thema. Cyflwynwyd rhaglen waith i chi fel aelodau yn y cyfarfod diwethaf ac isod mae diweddariad ar y gwaith sydd wedi'i wneud i rai o'r camau gweithredu.

Cam gweithredu	Manylion
Sicrhau gwybodaeth lawn i ddarpar ymgeiswyr.	Mae gwaith wedi cychwyn i ddiweddarau'r wybodaeth ar y wefan a gobeithir y bydd y wybodaeth yn gyfredol erbyn canol mis Tachwedd. Yn ychwanegol at y wybodaeth ar y wefan rydym yn creu Llawlyfr i Ddarpar ymgeiswyr gyda gwybodaeth ddefnyddiol yn rhoi darlun llawn iddynt o rôl aelod. Mae rhai o'r penawdau fel a ganlyn: - Rôl Cynghorydd - Sut mae'r Cyngor yn gweithio? - Ymrwymiad Amser a Chyflog - Gwerthoedd - Cefnogaeth i Gynghorwyr - Diwrnod ym Mywyd Cynghorydd. Byddwn yn ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Trafod Cynghorwyr: Etholiad 2027
Hybu amrywiaeth	Mae fideos wedi eu creu gan y Tîm Democratiaeth er mwyn amlygu rôl Cynghorydd a byddant yn cael eu rhyddhau ar wefannau cymdeithasol yn fuan ym mis Tachwedd. Diolch

Cam gweithredu	Manylion
	i'r Aelodau Etholedig sydd wedi gwirfoddoli i fod yn rhan o'r fideos. Bydd Sesiwn "Elect Her" yn cael ei gynnal ar XXXXXX a fydd yn sesiwn penodol wedi ei greu i annog merched i sefyll etholiad. Bydd y sesiwn yn cael ei gadeirio gan Catrin Thomas, Cyfarwyddwr Corfforaethol a bydd cyfraniadau gan yr Arweinyddion Grwpiau. Fel rhan o raglen ehangach i hybu democratiaeth bydd sesiynau yn cael eu cynnal ar y cyd gan y Swyddog Monitro a'r Swyddog Priodoldeb ynghyd a'r Tîm Democratiaeth i egluro i unrhyw un sy'n ystyried sefyll beth yw rôl aelod ac i roi cyfle iddynt ofyn unrhyw gwestiynau. Bydd y rhain yn cael eu cynnal yn fuan ym mis Ionawr.
Mewnrwyd Aelodau	Yn dilyn trafodaethau yn y Grŵp Trafod Cynghorwyr: Etholiad 2027, mae gwaith yn mynd rhagddo i ail edrych ar y fewnrwyd aelodau i'w symleiddio yn y gobaith y bydd yn fwy defnyddiol ac yn haws i'w ddefnyddio.

4. Canlyniadau/ diwrnod etholiad

Bu cryn werthfawrogiad o'r gwaith a wnaethpwyd gogyfer etholiadau 2022, yn arbennig y llwyddiant i gyhoeddi canlyniadau'r etholiad fesul ward fel ag yr oeddent yn cael eu datgan. Byddwn yn sicrhau fod trefniadau mewn lle i gael llwyddiant cyffelyb yn 2027. Gan fod trosiant staff o fewn y tîm democratiaeth ar hyn o bryd bydd yn angenrheidiol creu rhaglen hyfforddiant i aelodau newydd o staff er mwyn iddynt ddeall y gofynion a bod yn hyderus i weithredu er mwyn i ni sicrhau llwyddiant cyffelyb yn 2027.

5. Anwytho a'r rhaglen hyfforddiant.

Mae dwy brif elfen i'r gwaith anwytho, sef y diwrnod croeso a'r rhaglen hyfforddiant am y flwyddyn gyntaf.

6. Mae'r prif gamau gweithredu ar gyfer yr elfennau uchod o waith sydd yn cynnwys:

Cam gweithredu	Manylion
Diwrnod croeso	Rydym wedi adlewyrchu ar sut y cyflwynwyd gwybodaeth i Gynghorwyr ar y Diwrnod Croeso yn 2022. Amlygwyd gan nifer o Gynghorwyr fod llawer o wybodaeth wedi'i gyflwyno ar y diwrnod oedd yn drwm ac felly'n ddiwrnod blinedig. Er mwyn ymateb i'r sylwadau rydym yn edrych i lunio Diwrnod Croesawu sydd yn blaenoriaethu'r prif bwyntiau canlynol: • Braslun o sut mae'r Cyngor yn gweithio • Y Cod Ymddygiad • Cefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr • Darpariaeth Technoleg Gwybodaeth.

Cam gweithredu	Manylion
	Nodwyd fod nifer wedi elwa o gael cyfarfod a'u cyd-aelodau a nifer o swyddogion allweddol ar y diwrnod cyntaf. Ein bwriad fydd gwahodd yr holl aelodau (rhai newydd a rhai sy'n dychwelyd) i Ddiwrnod Croeso yn Siambr Dafydd Orwig gan ei gynnal yn ddigwyddiad wyneb i wyneb yn unig. Drwy sicrhau nad ydym yn gorlwytho Cynghorwyr ar y diwrnod cyntaf – gobeithiwn y bydd modd cael sesiynau byr a bachog er mwyn rhannu mwy o wybodaeth angenrheidiol yn y pythefnos cyntaf. Meysydd megis: - Beth i'w ddisgwyl yng nghyfarfod cyntaf y Cyngor Llawn (y cyfarfod blynyddol) - Cyfarfodydd Rhithiol a Hybrid – tips ymarferol ar sut i fynychu y cyfarfodydd a rhannu ymarfer da Yn ogystal, mae wedi dod i'n sylw nad oedd y Llawlyfr Aelodau a gyflwynwyd i Gynghorwyr yn ôl yn 2022 wedi cyfarch yr holl anghenion a'r wybodaeth angenrheidiol oedd ei angen. O ganlyniad mae gwaith yn cael ei wneud i greu llyfryn cynhwysfawr a fydd o fwy o ddefnydd.
Rhaglen anwytho'r flwyddyn gyntaf	Rydym wedi nodi yn y cyfarfod blaenorol fod blaenoriaethu hyfforddiant craidd i Aelodau i'w harfogi gyda'r wybodaeth angenrheidiol i gyflawni'r rôl yn allweddol bwysig – mae adroddiad penodol wedi ei gyflwyno i'r cyfarfod am y maes hyfforddiant. Noder hefyd ei bod yn gamp anodd ei chyflawni i geisio taro'r balans rhwng sicrhau cyflwyno gwybodaeth digonol i aelodau, ond sicrhau nad ydynt yn cael eu boddi gyda gormod o wybodaeth a hyfforddiant. Yn amlwg mae'n rhaid hefyd cadw'r balans gyda'r pwyllgorau fydd i'w cynnal yn y cyfnod cyntaf cyn yr haf, gan gofio fod yn rhaid cyflwyno hyfforddiant penodol ar gyfer rhai pwyllgorau ee pwyllgor cynllunio, trwyddedu, craffu ayyb cyn y gall aelod eistedd ar y pwyllgor. Bydd y cyfnod cyn yr haf yn un prysur iawn gan fod angen cynnal yr un nifer o bwyllgorau (os nad mwy) o fewn cyfnod llai o amser na'r hyn sydd ar gael mewn blwyddyn arferol. Mae gwaith yn cael ei wneud ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu er mwyn mapio'r hyfforddiant fydd ei angen ar gyfer y flwyddyn gyntaf.

7. Croesewir unrhyw sylwadau ar y rhaglen waith.

8. Sylwadau Aelodau.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cael eich barn a'ch mewnbwn chi fel aelodau i fod yn rhan ganolog o'r gwaith datblygu ar gyfer yr etholiad mae grŵp bychan o Aelodau yn dod ynghyd i rannu eu barn. Mae'n draws doriad o aelodau profiadol ac eraill wedi ymuno'n fwy diweddar, ac maent yn cynnig sylwadau ar feysydd trafod penodol. Mae'r grŵp wedi cynnal sawl cyfarfod ac wedi trafod meysydd fel Cyfarpar TG aelodau, maes Hyfforddiant Aelodau a Mewnrwyd Aelodau. Mae'r ymatebion yn bwydo mewn i'r gwaith sydd yn cael ei wneud gan y tîm yn y rhaglen waith.

Yn ystod y misoedd nesaf byddwn yn cyfarfod i drafod meysydd megis:

- Gwybodaeth i Ddarpar Gynghorwyr
- Diwrnod Croeso / Cyfnod Anwytho / Llyfryn Cynghorwyr
- Cefnogaeth yn ystod y flwyddyn gyntaf.

9. Mae croeso i chi fel aelodau'r Pwyllgor Gwasanaeth Democratiaeth ymuno yn ogystal pe dymunwch.

Byddwn yn eich diweddarau o'r gwaith paratoi yng nghyfarfod mis Chwefror y pwyllgor.

10. PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi a derbyn yr adroddiad

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	3 Tachwedd 2026
TEITL YR ADRODDIAD	Darpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau Etholedig
PWRPAS	Cyflwyno diweddariad o'r gwaith sydd yn cael ei wneud i gryfhau'r ddarpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau
ARGYMHELLIAD	Gwahoddir y Pwyllgor i gynnig unrhyw awgrymiadau pellach cyn derbyn yr adroddiad
AWDUR	Mari Edwards, Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad

1.0 TROSOLWG

- 1.1 Mae **8** teitl sydd yn hyfforddiant Craidd i Aelodau. Mae'r rhain yn hyfforddiant sydd yn cefnogi Aelodau wrth eu gwaith ac mae anogaeth gryf i chi fod yn eu cwblhau fel **isafswm** er mwyn gallu cyflawni y rôl yn effeithiol.
- 1.2 Dyma ddiweddariad ar y niferoedd sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd:

Teitl Craidd	Niferoedd wedi cwblhau erbyn Hydref 2026	Niferoedd HEB gwblhau
Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol	57	12
Cod Ymddygiad	62	7
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	39	30
Diogelu Plant ac Oedolion	63	6
Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb	49	20
Gwybodaeth am Bobl	56	13
Rhiantu Corfforaethol	53	16
Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (Grŵp F)	54	15

- 1.3 Mae cefnogaeth barod wedi bod gan aelodau o'r pwyllgor yma, yn annog Aelodau Etholedig i gwblhau y teitlau hyfforddiant Craidd yn dilyn y cyfarfod Pwyllgor Democratiaeth diwethaf. Rydym, o fewn y gwasanaeth Dysgu a Datblygu yn werthfawrogol iawn o'r gefnogaeth ac wedi gweld newid sylweddol yn y ffigyrau sydd wedi cwblhau yr hyfforddiant.
- 1.4 Ar ddechrau mis Hydref 2026, fe anfonwyd e-bost i roi diweddariad i bawb, yn unigol, i'w hysbysu ar ble maen nhw erbyn hyn gyda cwblhau y teitlau Craidd.

2.0 DYSGU A DATBLYGU

- 2.1 Yn dilyn adolygu y meysydd Craidd, daethpwyd i'r penderfyniad i gadw'r wyth teitl sydd yn bodoli ar hyn o bryd. Bydd enw ambell i deitl yn newid i fod yn fwy clir beth yw cynnwys y cwrs.
- 2.2 Yn sgil trafodaethau am gynnwys hyfforddiant am LGBTQ+ fel rhan o'r arlwy, rydym yn cynnig fod yr hyfforddiant yma yn dod yn rhan o'r hyfforddiant sydd o dan y teitl Craidd Cydraddoldeb.
- 2.3 Bydd gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod cynnwys pob cwrs teitl Craidd wedi ei ddiweddarau ac yn barod i gael eu rhedeg ar gyfer y Cylch Etholiadol nesaf. Fel canlyniad i'r gwaith yma, mae gofyn i **pob** Aelod Etholedig fydd wedi eu hethol yn dilyn Mai 2027 fod yn cwblhau **pob** teitl hyfforddiant yn ystod y flwyddyn gyntaf, boed nhw wedi ei wneud o'r blaen a'i pheidio. Byddai hyn yn sicrhau cysondeb a cyfle i osod safonau.
- 2.4 Yn ystod cylch Etholiadol, bydd gofyn i Aelodau Etholedig gwblhau pob teitl hyfforddiant Craidd o leiaf unwaith. Bydd ambell deitl, er enghraifft Diogelu, yn gorfod cael ei gwblhau ddwy waith oherwydd y gofyn cyfreithiol sydd ar yr hyfforddiant. Fe wnawn pob ymdrech i raglennu pethau yn ofalus rhag rhoi gormod o bwysau gwaith ar Aelodau Etholedig.
- 2.5 Byddwn yn parhau gyda'r gwaith o amserlennu yr hyfforddiant Craidd yn ofalus gan roi ystyriaeth i'r dull orau o ddarparu'r hyfforddiant; boed nhw'n hyfforddiant wyneb yn wyneb (a bydd angen symud o amgylch y sir i ddarparu rheini), rhithiol neu bod recordiad o'r hyfforddiant yn addas. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i lefel arbenigedd yr hyfforddwr, gan edrych ar hyfforddwyr mewnlol ac allanol.
- 2.6 Mae ymwybyddiaeth o'r ffaith bod rhai o'r hyfforddiant teitlau Craidd yn cael eu cynnig gan asiantaethau neu rhanddeiliaid eraill y mae Aelodau Etholedig yn rhan ohonyn nhw fel rhan o'u dyletswyddau. Byddwn yn parhau i gadw golwg ar hyn, gofyn i Aelodau flaenoriaethu yr hyn a ddarperir yn fewnol gan y Cyngor, ac adnabod ffyrdd o brofi pa hyfforddiant y mae Aelodau Etholedig wedi eu cwblhau.
- 2.7 Ar gyfer y Cylch Etholiadol nesaf, mae bwriad o annog Aelodau Etholedig i fod yn cwblhau pob teitl Craidd yn ystod y flwyddyn gyntaf, fel ein bod yn gallu rhoi ein ymdrechion i ddarparu teitlau Datblygol yn y blynyddoedd dilynol o fewn y cylch pum mlynedd. Gobeithir y bydd hyn yn ein galluogi i roi gwell darpariaeth a chynnig cyfleoedd hyfforddiant o werth Aelodau.
- 2.8 Mae Strategaeth Hyfforddi Aelodau Etholedig yn parhau i fod ar waith a bydd yn cael ei gyflwyno i chi unwaith y bydd yn barod.

Gwahoddir y pwyllgor i ystyried y trefniadau hyfforddiant, cynnig sylwadau ar yr hyn a gyflwynir yn yr adroddiad hwn a chymeradwyo y camau a gynigir.

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth
DYDDIAD	3 Tachwedd 2026
TEITL	Diogelwch Cyngorwyr
PWRPAS	Cyflwyno diweddariad ar y gwaith sy’n cael ei wneud o ran Diogelwch Aelodau
ARGYMHELLIAD	Nodi a derbyn yr adroddiad.
AWDUR	Vera Jones Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith

1. Mae diogelwch Aelodau wedi bod yn ac yn parhau i fod yn flaenoriaeth i’r Gwasanaeth Democratiaeth. Yn anffodus mae’n parhau’n bwnc sydd angen sylw’n gyson. Rydym yn ymwybodol fod nifer o Gyngorwyr yn wynebu bygythiadau yn eu cymunedau ac rydym ar gael i gynnig cymorth a chefnogaeth i aelodau unigol pan fo materion diogelwch neu lles yn codi.
2. Bu i’r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth adrodd yn ei Adroddiad Blyneddol yn 2024/25 fod angen codi ymwybyddiaeth Cyngorwyr o’r angen i adrodd ar unrhyw ddigwyddiad neu fygythiad, gan lenwi a dychwelyd y ffurflenni perthnasol (HS11).
3. Mae’r adroddiad yn nodi’r gwaith mae’r Cyngor wedi ei wneud dros y misoedd diwethaf i sicrhau fod diogelwch aelodau yn cael sylw cyson.
4. Digwyddiad Cofio Jo Cox
 - 4.1 Ar y 19eg o Fehefin, yn dilyn Rybydd o Gynnig yn y Cyngor Llawn, cynhaliwyd digwyddiad i Gyngorwyr i gofio am Jo Cox. Roedd yn rhan o’r digwyddiad cenedlaethol ‘Great Get Together’. Daeth Cyngorwyr at ei gilydd dan faner yr hyn oedd yn bwysig i Jo Cox, sef i ddathlu yr hyn sy’n ein cysylltu gan ddangos fod gennym fwy yn gyffredin na’r materion sydd yn ein gwahanu.
 - 4.2 Cafwyd cyfle i gael trafodaethau agored a derbyn gwybodaeth ynghylch
 - y bygythiadau a’r heriau sydd yn eu wynebu Aelodau yn eu cymunedau,
 - ymarfer da wrth ystyried diogelwch Aelodau yn y gymuned ac mewn cyfarfodydd
 - arweiniad i Aelodau ar sut i gynnal digwyddiadau yn ddiogel
 - codi ymwybyddiaeth o’r gefnogaeth sydd ar gael gan y Cyngor.
 - 4.3 Tynnwyd sylw at y gefnogaeth sydd ar gael gennym ni yma yn y Cyngor, yn arbennig y tudalennau ar y fewnwyd aelodau ynghylch diogelwch Aelodau ac ynghylch llesiant Aelodau. Yn ogystal, cafwyd cyfle i atgoffa’r Aelodau o’r gefnogaeth benodol sydd ar gael i Aelodau Etholedig gan swyddog dynodedig yn Heddlu Gogledd Cymru trwy “Operation Ford”. Mae’n bwysig fod unrhyw aelod sy’n cysylltu gyda’r heddlu am gymorth os oes rhywbeth yn/wedi digwydd iddynt yn nodi fod y digwyddiad yn berthnasol i “Operation Ford”.

- 4.4 Roedd yn fore gwerthfawr o gyfnewid profiadau, ac amlygodd fod Cynghorwyr o bob plaid a chefnidir yn aml yn wynebu'r un materion. Nodwyd cais gan yr Aelodau a fu'n bresennol i'r Cyngor gynnal sesiynau o'r fath yn fwy rheolaidd er mwyn rhoi cyfle i Gynghorwyr rannu profiadau, adnabod datrysiadau posib ac ymarfer da sydd wedi gweithio i eraill a chael cefnogaeth eu cyd-gynghorwyr.

5. Hyfforddiant Adrodd Digwyddiadau i Gynghorwyr

- 5.1 Fel yr adroddwyd eisoes, rydym yn ymwybodol fod Cynghorwyr yn wynebu digwyddiadau ac/neu fygythiadau yn sgil eu rôl fel Cynghorwyr. Wedi dweud hynny, mae'r dystiolaeth ffeithiol sydd gennym o'r nifer digwyddiadau yn isel iawn. Mae wedi bod yn ofyn ers blynnyddoedd i Aelodau adrodd ar ddamweiniau, ddigwyddiadau treisgar a pheryglus neu fygythiadau o'r fath gan lenwi ffurflen benodol (HS11), ond mae'r nifer sydd wedi eu llenwi yn isel iawn.
- 5.2 Fel rhan o'r gwaith o godi ymwybyddiaeth Aelodau o'r angen i adrodd ar unrhyw ddigwyddiad neu fygythiad cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant rhithiol gan y Tîm Iechyd a Diogelwch. Roedd yr hyfforddiant yn ychwanegiad i'r hyfforddiant craidd 'Arwain yn ddiogel'.
- 5.3 Mae'r Cyngor wedi moderneiddio a symleiddio'r drefn adrodd digwyddiadau ac wedi creu ffurflenni digidol er mwyn adrodd damweiniau, peryglon a digwyddiadau treisgar a pheryglus. Roedd y sesiwn yn darparu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i sicrhau bod pob unigolyn yn gallu defnyddio'r system yn hyderus ac yn gywir. Bwriedir cynnal y sesiynau yma i gynghorwyr yn y dyfodol.
- 5.5 Gyda'r etholiad Llywodraeth Leol ar y gorwel mae'n debyg y bydd nifer o Aelodau Etholedig yn paratoi i fynd allan i ymgyrchu dros y misoedd nesaf. Rydym yn annog ein holl aelodau i fod yn ymgyfarwyddo a'r wybodaeth ynghylch diogelwch sydd ar y safle we fel rhan o'u gwaith paratoi at yr etholiad. Yn ogystal, petai unrhyw Gynghorydd yn wynebu un o'r sefyllfaoedd hyn anogir hwy i adrodd y digwyddiad ar y system, neu i gysylltu â ni fel Cyngor petai chi angen cymorth. Ni ddylai neb wynebu hyn ar ben eu hunain.

6. **PENDERFYNIAD A GEISIR**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi a derbyn yr adroddiad

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth
DYDDIAD	3 Tachwedd 2026
TEITL	Diweddariad - Gwaith Uwchraddio systemau'r Siambrau
PWRPAS	Cyflwyno diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud i uwchraddio'r Siambrau
ARGYMHELLIAD	Nodi a derbyn yr adroddiad.
AWDUR	Annes Siôn Arweinydd Tîm Democratiaeth

1. Yn ôl ym mis Gorffennaf bu i chi fel Cyngor dderbyn Adroddiad Blynnyddol y Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth ar gyfer 2025/26. Yn yr adroddiad hwnnw nodwyd fod diweddaru'r adnoddau yn y Siambrau yn un o'r blaenoriaethau ar gyfer 2026/27.
2. Mynegwyd y bydd y prosiect yn dilyn y trefniadau caffael angenrheidiol er mwyn diweddaru'r cyfarpar yn y siambrau gan sicrhau galluogi cyfieithu ar y pryd, mynediad o bell, pleidleisio a gwe ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor o'r siambrau. Nodwyd hefyd ein bod am sicrhau fod y profiad i ddefnyddwyr y siambrau, i bobl Gwynedd sy'n gwylio'r gwe ddarllediadau ac i staff y Cyngor sy'n gyfrifol am ddefnyddio'r system am fod yn hawdd i'w ddefnyddio ac effeithiol.
3. Mae hyn yn dilyn nifer o broblemau gyda'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd, sydd a rhai elfennau yn dyddio yn ôl i 2012, gyda phroblemau sain yn benodol yn Siambr Dafydd Orwig wedi ei amlygu fwy fwy dros y misoedd diwethaf.
4. Bwriad yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i chi ar y gwaith.
5. Mae'r Aelodau Cabinet bellach wedi comisiynu darn o waith i edrych ar y farchnad ac i gael gwybodaeth o ran dyfynbrisiau er mwyn gwneud y gwaith. Er mwyn cwblhau'r gwaith sefydlwyd grŵp prosiect yn cynnwys y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, Pennaeth Cynorthwyol - Digidol a Thechnoleg a Swyddogion o'r maes Technoleg Gwybodaeth, Tai ac Eiddo a Democratiaeth ac Iaith.
6. Mae'r Grŵp Prosiect dros y misoedd diwethaf wedi bod yn gweithio ar fanyleb dechnegol a fydd yn diwallu'r holl anghenion ar gyfer y siambrau. Bydd Digwyddiad Ymgysylltu â'r Farchnad Gyflenwyr yn cael ei gynnal dros yr wythnosau nesaf er mwyn i ddarpar gyflenwyr posib weld anghenion y Cyngor ar gyfer adnoddau yn y Siambrau drostynt eu hunain. Mae hyn yn gam arferol cyn cychwyn y broses tendr swyddogol, ac yn arwain at dendrau mwy manwl a chywir fel arfer.

Byddwn yn eich diweddaru o'r gwaith paratoi drwy adroddiadau cyson i'r pwyllgor yma.

7. Rhagwelir y camau nesaf ar gyfer cyflawni'r gwaith fel y nodi'r isod.
 - Caffael cyn y Nadolig
 - Cytuno a gytundeb ym mis Ionawr / Chwefror
 - Paratoi i wneud y gwaith erbyn yr Haf.

8. PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi a derbyn yr adroddiad.

CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth

Dyddiad y Cyfarfod	3 Tachwedd 2026
Teitl yr Eitem	Diweddariad ar raglen waith Pryderon ac Ymholiadau Aelodau
Swyddog Cyswllt	Heledd Jones, Uwch Swyddog Gweithredol

1. PENDERFYNIAD

- 1.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ystyried cynnwys yr adroddiad hwn a'r atodiad cysylltiedig.

2. BETH YW' CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL?

Cefndir

- 2.1 Yn dilyn pryderon a godwyd yn 2022 ynghylch diffygion ac oedi wrth ymateb i ymholiadau gan Aelodau, gweithredwyd nifer o welliannau ar draws y Cyngor i gryfhau trefniadau ymateb ac i gefnogi Aelodau yn fwy effeithiol. Roedd y gwelliannau hyn yn cynnwys gweithredu'r Polisi Gweithio'n Hybrid, sefydlu'r Cynllun Digidol, y Cynllun Gofal Cwsmer, a gwneud newidiadau i drefniadau hunanwasanaeth.
- 2.2 Rhwng Medi 2025 a Chwefror 2026, cynhaliwyd adolygiad dilynol drwy ymgysylltu gyda'r Aelodau, cynghorau tref a chymuned, penaethiaid adrannau a swyddogion. Er bod canfyddiadau'r adolygiad yn gyffredinol gadarnhaol, nodwyd nifer o feysydd ble roedd angen rhagor o gysondeb a gwelliant. Yn benodol, amlygwyd yr angen i:
- safoni trefniadau ar draws gwasanaethau;
 - sicrhau bod ymholiadau'n cael eu cydnabod ac yn derbyn ymateb prydlon;
 - darparu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd ymholiadau; a
 - gefnogi aelodau wrth gysylltu gydag amryw o wasanaethau ar ystod eang o faterion.
- 2.3 Ymhellach fe fynegodd aelodau eu hawydd am ragor o eglurder ynghylch y sianeli a'r trefniadau y dylid eu dilyn ar gyfer codi gwahanol fathau o bryderon, ymholiadau a chwynion, yn enwedig mewn perthynas â materion canu'r gloch, diogelu tywyll ar ran etholwyr.

Rhaglen Waith Ymholiadau Aelodau

- 2.4 Yn sgil yr adolygiad, datblygwyd Rhaglen Waith ar y cyd gan y Grŵp Tasg Aelodau a'r Grŵp Tasg Drawsadrannol, gyda'r bwriad o gryfhau'r gefnogaeth a ddarperir i Aelodau Etholedig. Mae'r Grŵp Tasg Drawsadrannol wedi arwain a chydlynu'r gwaith o weithredu'r camau a nodwyd yn y rhaglen waith.

2.5 Mae nifer o elfennau'r rhaglen waith eisoes wedi'u cyflawni neu wrthi'n cael eu datblygu, gan gynnwys:

- **Porth Ymholiadau Aelodau** – datblygwyd porth penodol i alluogi Aelodau i gyflwyno a chofnodi ymholiadau mewn un lle canolog. Mae'r porth yn cael ei dreialu ar hyn o bryd gan y Grŵp Tasg Aelodau. Yn dilyn gwerthusiad o'r trefniadau peilot, y bwriad yw ehangu mynediad i'r porth fel y gall pob Aelod Etholedig ei ddefnyddio i gyflwyno a monitro cynnydd eu hymholiadau.
- **Polisi Adrodd Cyfrinachol ("Canu'r Gloch") Aelodau** – cyflwynwyd y Polisi yn dilyn gwaith i sefydlu gweithdrefn benodol ar gyfer Aelodau Etholedig i godi pryderon yn gyfrinachol. Cymeradwywyd y Polisi gan gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 2 Gorffennaf 2026.
- **Llwybrau Adrodd** – paratowyd infograffeg sy'n darparu trosolwg clir i Aelodau o'r llwybr mwyaf priodol i'w ddilyn wrth godi pryder, cwyn neu ymholiad. Gweler Atodiad 1 ar gyfer copi o'r infograffeg sydd wedi ei baratoi. Bwriedir gosod yr infograffeg hyn mewn man hygyrch ar y fewnwyd aelodau maes o law.

Y camau nesaf

2.6 Bydd y gwaith yn parhau dros y misoedd nesaf, gyda'r nod o sicrhau bod trefniadau cadarn, cyson ac effeithiol ar waith cyn etholiadau llywodraeth leol 2027. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod Aelodau Etholedig yn derbyn cefnogaeth briodol wrth gyflawni eu rôl, gan gefnogi hefyd y gwaith o baratoi ar gyfer anwytho'r Cyngor newydd yn dilyn yr etholiadau yn Mai 2027.

2.7 Bydd y prif ffrydiau gwaith yn cynnwys:

- diweddarau pecyn anwytho Aelodau, gan gynnwys gwybodaeth glir am rolau, trefniadau democrataidd a'r gefnogaeth sydd ar gael;
- cydlynu rhaglen hyfforddiant Aelodau, gan adolygu'r ddarpariaeth bresennol a sicrhau rhaglen strwythuredig sy'n ymateb i anghenion Aelodau;
- cynnal gwerthusiad o'r Porth Ymholiadau Aelodau yn dilyn y cyfnod peilot, er mwyn sicrhau trefn gyson ac effeithiol ar gyfer cyflwyno ac olrhain ymholiadau; a
- diweddarau Mewnwyd yr Aelodau, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth, polisïau, canllawiau a manylion cyswllt perthnasol ar gael yn rhwydd.

2.8 Drwy'r gwaith hwn, y nod yw sicrhau trefniadau cymorth clir, cyson ac effeithiol i Aelodau, gan wella mynediad at wybodaeth a hyfforddiant angenrheidiol.

2.9 Gan fod y rhai o'r prif dasgau a oedd ynghlwm â'r rhaglen waith wedi'u cyflawni, a'r gwaith sy'n weddill mewn llaw, bydd cyfrifoldeb am fonitro a chwblhau'r camau gweithredu sy'n weddill yn cael ei drosglwyddo i'r trefniadau gweithredol arferol. Lle mae angen mewnbwn pellach gan aelodau, bydd y materion hynny'n cael eu trafod yn y grŵp Aelodau: Paratoi at Etholiad 2027.

Atodiadau:

Atodiad 1: Infograffeg - Llwybrau Ymholi ac Adrodd i Aelodau

Llwybrau ymholi ac adrodd i aelodau


Pryder

**Datgelu
Ymddygiad /
Pryderon Difrifol
neu Droseddol**
(e.e. llygredd, twyll
a troseddau megis
iechyd a
diogelwch)

Diogelu
(e.e. camdriniaeth
corfforol, rhywiol,
seicolegol,
teimladol neu
ariannol)

Twyll
(e.e. cynrychiolaeth
ffug, methu datgelu
gwybodaeth yn
fwriadol neu dwyll
drwy camddefnyddio
swydd)

**Adrodd i'r
Swyddog
Monitro neu'r
Prif weithredwr
(os yn
berthnasol)**
(arweiniad yn y
Cyfansoddiad,
Adran 23, Polisi
Adrodd
Cyfrinachol
Aelodau, rhan 5)


**Plentyn newn
perygl - heddlu
(999)
Oedolyn
Perygl brys i
blentyn neu
oedolyn - Heddlu
(999)
Pryder am
ddiogelwch
plentyn neu
oedolyn -
Gwasanaeth
Cymdeithasol**
(arweiniad yn y Polisi
Diogelu)

**Adrodd i
Rheolwr
Archwilio**
(yn unol a'r Côd
Ymddygiad a'r
Strategaeth
Gwrth-dwyll)




**Cwyn am
Wasanaeth ar
ran etholwyr**
(e.e. casgliadau
gwastraff yn
methu)

**Datrysiaid ffurfiol
- adrodd i'r
Rheolwr /
Pennaeth Adran
Cwyn anffurfiol -
drwy cyswllt
cwynion
canolog**
(Galw Gwynedd,
gwefan neu e-bost
cwynion)




**Cwyn am
Swyddog / Prif
Swyddog**
(e.e. bod yn
amharchus at
aelod, anwybyddu
gohebiaeth, torri
cyfrinachedd ayyb)

**Adrodd i
Rheolwr Llinell;
uchafu i'r
Pennaeth Adran
/ Cyfarwyddwr
(os bydd angen)**
Arweiniad yn Adran
21 Protocol ar gyfer
cysylltiadau
Aelodau a
Swyddogion



**Cwyn am y Prif
Weithredwr /
Swyddog
Monitro**
e.e. (ymddygiad sydd
yn groes i'r Protocol
Aelodau a
Swyddogion, ne'n
dorri o'r Côd
Ymddygiad)

**Cwyn am y Prif
Weithredwr i'w
adrodd i'r
Swyddog
Monitro.
Cwyn am y
Swyddog Monitro
i'w adrodd i'r
Rheolwr Llinell**
(arweiniad yn Adran
21 Protocol ar gyfer
Cysylltiadau
Aelodau)



**Cwyn am
ymddygiad
aelod arall**
(e.e. dwyn anfri,
amharch,
amrhiodoldeb, torri
cyfrinachedd
ayyb)

**Adrodd i
Swyddog
Monitro**
(arweiniad yn
Adran 18 Côt
Ymddygiad)




Ymholiad

**Cais am
wasanaeth ar
ran etholwyr**
(e.e. cais am fin
newydd, newid
lamp stryd, adrodd
ar dwll mewn lôn)

E-bostio, ffonio'r
Gwasanaeth,
Galw Gwynedd,
gwefan y Cyngor,
Hunanwasaneth
aelodau.

**Ymholiad
cyffredinol /
cais am
wybodaeth am
wasanaethau'r
cyngor**
(e.e. diwrnod casglu
bin, cyngor ar
ceisiadau cynllunio,
ceisiadau treth
cyngor)

Cysylltu drwy Galw
Gwynedd neu
cysylltu'n,
uniongyrchol a'r
Gwasnaeth neu
gwybodaeth ar y
wefan